

# Cylchlythyr Gwanwyn 2024

epwales.org.uk  
@epwales



Platfform yr  
Amgylchedd Cymru

Environment  
Platform Wales



Cyllid ymchwil  
amgylcheddol yn  
cael ei ddylanwadu  
gan EPW

## Croeso

Croeso i gylchlythyr Platfform Amgylchedd Cymru (EPW). Nod EPW yw cynyddu ansawdd a pherthnasedd y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer rheolaeth amgylcheddol a llunio polisiau yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy gefnogi ymchwilwyr i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy weithdai a gweithgorau a thrwy gefnogi datblygiad ceisiadau ariannu ar raddfa fawr sy'n uniongyrchol berthnasol i lunwyr polisi Cymru.



## Rhybudd spoiler!

### Grŵp Ymchwil Diogelwch Tomenni Glo

Ers y gofynnwyd iddynt helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu ag academyddion ag ymchwil sy'n berthnasol i ddiogelwch tomennydd glo yng Nghymru, buddsoddwyd mewn:


- 3 x Efyrdiaethau PhD
- Traethawd hir MSc
- >£1m mewn ceisiadau am arian ymchwil a gyflwynwyd
- Modiwlau cwrs newydd
- Cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd yng Nghymru

## Cynhadledd Tystiolaeth Forol Cymru yn gwneud tonnau

ECynhaliodd Platfform Amgylchedd Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru Gynhadledd Tystiolaeth Forol 2024 ym mis Chwefror gyda'r nod o greu cysylltiadau cryfach rhwng ymchwil a pholisi yn sector amgylchedd morol Cymru. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr, gyda dros 150 o fynychwyr yn dod ynghyd, yn bersonol ym Mangor a hefyd ar-lein, i rannu gwybodaeth a datblygu rhwydweithiau.

Dywedodd Kirsten Ramsay, Arweinydd Tîm Cyngor Ecosystemau Morol ac Arfordirol CNC, "Mae dod â phobl ynghyd mewn cynhadledd fel hon yn bwysig iawn i drafod sut y gallwn gynnal ymchwil a fydd yn bwydo i mewn i benderfyniadau polisi a rheoli a fydd yn amddiffyn ein hamgylchedd morol".  
PTO

# Cylchlythyr



TRoedd y gynhadledd yn cynnwys dros 30 o gyflwyniadau, gan dynnu sylw at ehangder yr ymchwil gydweithredol sy'n cael ei wneud a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau sydd o'n blaenau yn y dyfodol.

Y themâu a archwiliwyd dros y tridiau oedd: Gwynt ar y Môr, Ynni'r Llanw a Diwydiannau Eraill, Carbon Glas a Morfa Halen, Monitro, Statws a Llinell Sylfaen, Adfer Morwellt ac Ansawdd Dŵr, Pysgod a Physgodfeydd, Cymdeithas a Llesiant, a Chasglu a Defnyddio Data. Mae pecynnau sleidiau o'r rhan fwyaf o'r cyflwyniadau ar gael ar wefan EPW yma.



## Tri Cymrawd Ymchwil Amgylcheddol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru

Bydd y Cymrawd cyntaf i'w benodi, Dr Iain Brown (Prifysgol Dundee) yn cyflwyno sgwrs Insights Wales am ei waith yn datblygu fframwaith ar gyfer integreiddio Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol ar 24 Ebrill am 1:30pm. Gallwch gofrestru i fynychu ar [ein gwefan](#).

## Partneriaethau a Chydweithrediadau Newydd

### Dileu tensiynau amgylcheddol: Gweithgor Heddwch ac Amgylchedd

Mae Platform Amgylchedd Cymru wedi ffurfio partneriaeth ag Academi Heddwch (Sefydliad Heddwch Cymru) i ddod ag academyddion o'n prifysgolion partner, llunwyr polisi, ynghyd i archwilio'r berthynas rhwng yr amgylchedd a heddwch. Yn dilyn cyfarfodydd cwmpasu ar-lein cychwynnol, cyfarfu'r gweithgor yn Aberystwyth ym mis Mawrth ar gyfer gweithdy wedi'i hwyluso yn canolbwyntio ar sut y gallai newid amgylcheddol greu tensiynau i gymunedau yng Nghymru. Cynhaliwyd y digwyddiad arloesol gan Ganolfan Deialog Aberystwyth gyda'r bwriad o gyfrannu at bapur polisi byr.



# Cylchlythyr

## Delweddaueth wedi'i Ail-ddychmygu: Gweithgor Gofod a Lloeren

Yn 2023, trafododd Gofod Cymru sut y maent yn archwilio'r defnydd o ddelweddaueth lloeren wrth fonitro a rheoli amgylcheddol.

Ers hynny mae EPW wedi eu cefnogi i gysylltu ag ymchwilwyr ac maent bellach yn cychwyn ar gydweithrediad gwerth £100k a ariannwyd gan Asiantaeth Ofod y DU i ddarparu gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth rhwng y sector cyhoeddus, y byd academaidd a busnesau bach a chanolig ym meysydd blodau algaid niweidiol a ffermio gwymon masnachol. Bydd allbynnau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o lunio polisiau, gwella darpariaeth y sector cyhoeddus ac ar gyfer monitro amser real ac ymateb i senarios bygythiadau yn y dyfodol, tra'n diffinio cyfleoedd marchnad newydd i BBAChau gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu atebion i heriau a nodwyd a hyrwyddo cydweithredu ar draws y rhwydweithiau clwstrw. . Cynigir gweithdai yn ystod 2024. Cysylltwch ag [info@epwales.org.uk](mailto:info@epwales.org.uk) os hoffech chi gymryd rhan.



## Ymchwil Arsylwi'r Ddaear

- Mae gan EPW:Cefnogi >£1m o fuddsoddiad gan LIC - gan sicrhau bod 2000 o drwyddedau data Planet Lab ar gael fesul prifysgol am y 2 flynedd nesaf.
- Wedi hwyluso digwyddiadau hyfforddi a gweithdai ar gyfer defnyddwyr terfynol
- Wedi cynllunio seminar rhannu gwybodaeth i alluogi defnyddwyr i rannu eu hymchwil ag eraill a datblygu mentrau cydweithredol.



## Lleoliadau PhD amgylcheddol yn Llywodraeth Cymru yn 2023

### Safbwyntiau Gwahanol: Gweithgor Tirweddau Dynodedig

Yn dilyn gweminar Insights Wales gyda Ruth Lovell, Tirweddau Cymru, mae Platform Amgylchedd Cymru yn hwyluso'r gwaith o ffurfio gweithgor ar dirweddau dynodedig. Bydd y grŵp yn cael ei ffurfio o gynrychiolwyr ar draws ein prifysgolion partner ac mae cyfarfod ar-lein cychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 22 a fydd yn cael ei gynnal gan Ruth a chydweithwyr o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Cysylltwch â ni yn [info@epwales.org.uk](mailto:info@epwales.org.uk) os hoffech chi gymryd rhan.

# Cylchlythyr

## Rhagolygon Disglair

Helpu ein myfyrwyr i ddod o hyd i'w gyrfa amgylcheddol

Mae Plattform Amgylchedd Cymru wedi mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau ledled Cymru wedi'u targedu at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa amgylcheddol. Rhoddwyd cyngor i dros 750 o fyfyrwyr yn y 19 digwyddiad a fynychwyd gennym yn 2023.

Rydym wedi parhau â'r gwaith gwerthfawr hwn yn 2024, gan gynnal digwyddiad panel gyrfaoedd ar-lein llwyddiannus mewn partneriaeth â thîm Dyfodol Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, lle ymunodd dros 40 o fyfyrwyr o bob rhan o Brifysgolion Cymru â ni gyda phanel yn cynnwys siaradwyr gwadd o RSK Consulting, RSPB, Ynni Morol Cymru a Wales and West Utilities.

Mae EPW hefyd wedi parhau â'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o sefydliadau amgylcheddol siartredig, cynnal gweminar yn cyflwyno gwaith Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol (IES) a'r buddion gyrfa sy'n deillio o aelodaeth.

## Grŵp Ymchwil Dŵr Cronfeydd Dŵr

Ein cymuned ymchwil fwyaf gyda dros 120 o aelodau yn cynrychioli 12 prifysgol ac 17 cwmni dŵr ar draws y DU, Iwerddon a'r Iseldiroedd.

Mae £100k o gyllid wedi'i fuddsoddi mewn is-bartneriaethau ymchwil o aelodau'r grŵp.



# 1000+

Cofrestryddion ar  
gyfer Cipolwg  
Cymru

## Cipolwg Cymru: Galwad am gyflwyniadau

Mae dros 1,000 o bobl wedi cofrestru i fynychu ein cyfres sgysiau Cipolwg Cymru. Mae Insights Wales yn pontio'r bwlch rhwng anghenion ymchwil a thystiolaeth polisi. A oes gennych chi ymchwil yr hoffech ei rannu neu fwch tystiolaeth sydd angen ei lenwi? Cysylltwch â ni yn [info@epwales.org.uk](mailto:info@epwales.org.uk) os hoffech chi gyflwyno yn ein cyfres sgysiau nesaf Cipolwg Cymru. Gallwch hefyd gofrestru i fynychu'r sgysiau ar ein gwefan.

## Ymunwch â'n Cronfa Ddata Ymchwilwyr

# 800+

Ymchwilwyr  
Amgylcheddol



Mae Plattform Amgylchedd Cymru yn sefydlu cronfa ddata o ymchwilwyr amgylcheddol wedi'u lleoli ym mhrifysgolion a sefydliadau Cymru. Ychwanegwch eich proffil ymchwilydd ar ein gwefan.